Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymunedol Rhydypennau

Dyddiad yr arolygiad: 02/03/2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn a doeth sy'n gosod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ganddo weledigaeth gref sy'n canolbwyntio ar greu cymuned ddysgu hapus, ofalgar a chynhwysol lle mae lles a chynnydd disgyblion yn ganolog. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion, ac mae ethos cryf o gydweithio ymhlith yr holl staff yn nodwedd amlwg o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ei dysgu ac yn ymddwyn yn dda.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddysgu proffesiynol ac yn sicrhau bod targedau gwella staff yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol. Maent yn defnyddio ymchwil gweithredol yn effeithiol i gryfhau dealltwriaeth staff o addysgu a dysgu sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd y ddarpariaeth.

Mae staff wedi datblygu cwricwlwm diddorol a chynhwysol sy'n ennyn ac yn cynnal diddordeb disgyblion yn fedrus. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol llawer o ddisgyblion yn effeithiol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen addas yn y ddwy iaith, ac yn siarad Cymraeg yn hyderus wrth iddynt aeddfedu. Er hyn, wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae ychydig o ddisgyblion yn tueddu i droi i'r Saesneg wrth gyfathrebu â'i gilydd yn rhy aml.

Mae athrawon yn defnyddio syniadau disgyblion yn effeithiol wrth gynllunio gweithgareddau 'cer am her'. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae athrawon yn gor-arwain y dysgu, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu ac i wneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau dros amser.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal leol a'r gymuned i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth foesol a thrafod materion cyfoes. Er hyn, mae dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb, amrywiaeth a hunaniaethau gwahanol yn llai datblygedig.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith

A2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a'u hunaniaethau mewn cymunedau gwahanol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026